
# Llandudno

## Y CANLLAW POCED 2018/19











**#CREUATGOFION**



# Bywyd LLANDUDNO

**Cewch ddigon o brofiadau epig yng nghyrchfan glan môr mwyaf a gorau Cymru. Dyma rai i chi gychwyn arnynt.**

Gallwch eistedd mewn cadair gynfas a gwylio'r byd yn mynd heibio ar ein traethau hardd – mae gennym ddae draeth arbennig iawn. Beth am roi blaen eich troed yn y dŵr neu deithio ar gwch o amgylch y bae.

Neu gallwch grwydro ar hyd rhan wahanol iawn o Landudno ar Ben y Gogarth, ein mynydd bach ni. Teithiwch i'r copa ar dram Fictoraidd neu gar cebl gwifren-uchel (neu ar droed os ydych yn teimlo'n egnïol). Gallwch fynd yn ôl mewn amser ym Mwyngloddiau Copr yr Oes Efydd neu ganolbwyntio ar y presennol a gwibio i lawr y llethrau yng Nghanolfan Sgïo ac Eirafyrddio Llandudno.

Teithiwch yn ôl i'r gorffennol mewn lleoedd fel Amgueddfa Llandudno a'r 'Home Front Experience', sy'n ailgreu bywyd ym Mhrydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Neu anelwch am y siopau gwych yn ein strydoedd â chanopïau, arcêds a chanolfan siopa gyfoes Parc Llandudno. Maen nhw'n cynnig y dewis gorau a'r nifer mwyaf o siopau yng Ngogledd Cymru, o siopau bach bwtîc ac emporia hen bethau i stondinau anrhegion glan-môr a holl enwau cyfarwydd y stryd fawr.

Beth am fwynhau sioe yn Venue Cymru neu un o'r gwyliau a digwyddiadau arbennig niferus sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn.

## GWYLIAU A DIGWYDDIADAU

Peidiwch â cholli allan! Ewch i'n gwefan i weld yr holl ddigwyddiadau mawr sy'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn Sir Conwy. **dewchilandudno.org.uk**


08


09


10

## Y STORI YN LLAWN

**04** Chwarae plant

**08** Eich antur fawr nesaf

**12** Turio i'r gorffennol

**14** Atyniadau ac adloniant


**16** Atyniadau

**22** Map stryd a mynegai

Mae'r symbol hwn yn nodi atyniadau sydd fel arfer yn agored trwy'r flwyddyn.

## COFIWCH!

Tra byddwch yma, ewch i Ganolfan Croeso Llandudno yng Nghanolfan Fictoria ar Mostyn Street. Gall y staff cyfeillgar eich helpu gyda phethau fel archebu tocynnau a chynllunio diwrnodau. Ac, os nad ydych wedi dod o hyd i rywle i aros yn barod, gallant eich helpu i ddewis o'n amrediad eang o letyau hefyd. Ond cofiwch, yr hiraf y byddwch yn aros, y mwyaf o amser fydd gennych i fwynhau Llandudno!




Teithiau ar gefn mul

Alice in Wonderland

# Chwarae Plant

**Bwced a rhaw. Tywod rhwng eich bodiau. Ceisio gwneud synnwyr o'r geiriau yn eich india roc. Yr addewid o hufen iâ cyn gwely.**

**BETH SYDD DDIM I'W HOFFI AM LLANDUDNO?**
Mae ein hamrywiaeth o atyniadau yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd. Ewch am daith cwch o amgylch y Gogarth, gweld y golygfeydd o fws to agored a dod i adnabod yr anifeiliaid yn Fferm Bodafon. I hel atgofion, ewch am reid ar Dramffordd y Gogarth. Neu mewn cyferbyniad llwyr, darganfyddwch gyswllt Alice in Wonderland â Llandudno gyda dau app llwybr tref cyffrous.

## TRAETH Y GOGLEDD A'R PROMENÂD

Does dim eiliad ddiflas ar Draeth y Gogledd! Mae'r pob un o'r ffyrdd hen-ffasiwn gorau o fwynhau ein harfordir hardd yma. Sioeau Punch a Judy, reidiau asyn ar y tywod hufen iâ ar y pier, cerddoriaeth fyw o'r bandstand. Heb anghofio syrthio i gysgu yn eich cadair gynfas! Hefyd, mae man chwarae, pwll padlo a byrbrydau ar ochr ddwyreiniol y Prom.

## BAND TREF LLANDUDNO Cyf Map:D7

Yn dal i chwythu'n gryf ar ôl dros 100 mlynedd. Mae'r band yn perfformio'n fyw o'r llwyfan band bob dydd Sul gyda chaneuon mawl a dydd Llun gyda chyngerdd o gerddoriaeth boblogaidd. Yn ystod 2018, bydd y cyngherddau'n cael eu cynnal o 28 Mai tan 27 Awst o 7.30pm tan 8.30pm (gan ddibynnu ar y tywydd). Mwy o fanylion ar gael ar y llwyfan band.


Teithiau cwch Llandudno

## TEITHIAU CWCH

Cyf Map:C6
Y Jeti, Traeth y Gogledd, Llandudno 07961 561589

Un o'r ffyrdd gorau o weld Llandudno yw ar gwch. Neidiwch ar fwrdd y Sea-Jay neu'r Sea-Born ar gyfer taith olygfaol awr a hanner o hyd ar y dŵr i weld Trwyn y Fuwch a'r Gogarth; neu daith bysgota môr hirach ar y Starfish o Gonwy fel cwch siarter, lle gallwch fwynhau'r arfordir ysblennydd yn y gobaith o ddal eich cinio eich hun.

## BIG SHIP LTD Cyf Map:C6

Y Jeti, Traeth y Gogledd, Llandudno 01492 877458

Neidiwch ar fwrdd un o'r cychod cyflym a gwibiwch heibio'r Gogarth a Thrwyn y Fuwch trwy chwistrell o ddŵr a halen. Llawer o hwyl! Ar agor rhwng y Pasg a diwedd mis Medi (os yw'r tywydd yn caniatáu).

## TRÊN TIR LLANDUDNO

Cyf Map:C5
Traeth y Gogledd, Llandudno 01492 877458

Does dim llawer o ddulliau teithio eraill yn gwneud i deithwyr na gwylwyr wenu cymaint na thrên tir Llandudno. Mae'r awydd i chwifio ar y tyrfaoedd, wrth i'r injan amryliw bwffian ei ffordd rhwng Traeth y Gogledd a Phenmorfa, yn ormod i'w wrthsefyll. Hefyd, mae teithiau 1 awr o amgylch Marine Drive. Yn rhedeg o'r Pasg i fis Hydref.

## PUNCH AND JUDY PROFESSOR CODMAN

Cyf Map:C5 07900 555515

Mae'r teulu Codman wedi bod yn perfformio'r ffefryn glan môr hwn am dros 150 o flynyddoedd ger y pier ar Bromenâd Traeth y Gogledd. Bydd sioeau dyddiol yn digwydd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol (os yw'r tywydd yn caniatáu) rhwng y Pasg a mis Medi. Mae perfformiadau am 2pm a 4pm a hefyd am 12:30pm yn ystod anterth y tymor ac ar Wyliau Banc. Gwneir perfformiadau ychwanegol ar gyfer grwpiau ysgol drwy drefniant.

## PENMORFA

Mae gan draeth tawelach Llandudno ardaloedd chwarae i blant ac oedolion hefyd. Hefyd, mae pwll perffaith ar gyfer cychod model. Edrychwch allan dros geg Aber yr Afon Conwy i weld rhai o'r golygfeydd gorau o gwmpas, ac (os yw eich amseru yn dda) cewch weld y machlud mwyaf ysblennydd.

## TEITHIAU MARINE DRIVE Cyf Map:C5

01492 879133

Ewch ar hen fws am daith un awr ar hyd Marine Drive a mwynhau golygfeydd syfrdanol o Ynys Môn, Eryri ac allan dros Fôr Iwerddon. Bydd y daith yn gadael bob dydd o fynedfa'r pier am 11am, 1pm a 3pm.

## CITY SIGHTSEEING

Cyf Map:C5 01492 879133
city-sightseeing.com

Nid yw gweld y golygfeydd erioed wedi bod yn gymaint o hwyl! Cymerwch daith bws heb do o amgylch Llandudno a Chonwy. Teithiau yn cychwyn yn North Parade ger y pier, gyda bysiau bob awr o 10.15am (bob 30 munud yn ystod y tymor brig) Mis Mawrth tan yn hwyr fis Hydref.

## TAITH DREFTADAETH

Cyf Map:C5 01492 549934
routemaster999.com

Ewch ar daith yn ôl mewn amser ar hen Routemaster o 1962 wedi'i adfer i fwynhau Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos a Deganwy ar siwrnai awr o hyd. Bydd yn gadael o fynedfa'r pier am 11am, 1pm a 3pm o fis Ebrill tan fis Medi, dydd Mawrth tan ddydd Iau a dydd Sadwrn a Sul.

## 02 PARC FFERM BODAFON

Cyf Map:F12
Ffordd Bodafon, Llandudno
01492 549060
bodafonfarmpark.com

Dewch i ymweld â fferm go iawn. Crwydrwch o amgylch padogau, bwydo geifr a cheirw, a gweld yr adardai helaeth sy'n cynnwys tylluanod ac adar trofannol. Ewch am dro ar hyd llwybr treftadaeth y fferm neu fwynhau taith tractor neu ferlen. Ar agor bob dydd 10am tan 9pm yn yr haf. 10am tan 5pm yn y gaeaf.

## ALICE IN WONDERLAND

Mae'n addas iawn bod gan stori hudol fel Alice in Wonderland gysylltiad agos â Llandudno. Cafodd ei awdur, Lewis Carroll, ei ysbrydoli gan Alice go iawn, Alice Liddell. Daeth y teulu Liddell i Landudno yn gyntaf yn 1861 gan aros yng Ngwesty St Tudno. Roeddent yn hoffi'r ardal cymaint cawsant adeiladu tŷ ym Mhenmorfa a threuliodd Alice lawer o hafau ei phlentyndod yma. Roedd y teulu yn ffrindiau gyda Charles Dodgson, sy'n fwy adnabyddus fel Lewis Carroll.



## LLWYBRAU ALICE

Mae dau app llwybr tref cyffrous wedi cael eu datblygu - y Gwningen Wen a Drych Alice. Mae'r profiadau digidol 3D anhygoel yn eich galluogi i ddilyn anturiaethau Alice drwy Wlad Hud. Ar gyfer y rhai sydd ddim mor dechnegol, mae map llwybr tref a chanllaw swfenîr, ac mae'r llwybr cyfan yn hawdd i'w defnyddio - dim ond dilyn olion traed efydd y Gwningen Wen trwy Llandudno.

**alicetowntrails.co.uk**

## 27 CAR CEBL LLANDUDNO Cyf Map:B6

Gerddi y Fach, y Gogarth,
Llandudno 01492 877205

Reidiwch ar gar cebl hiraf y DU yr holl ffordd i gopa'r Gogarth, 679 troedfedd i fyny. Mwynhewch olygfeydd anhygoel Bae Llandudno, Trwyn y Fuwch, Aber yr Afon Conwy a milltiroedd a milltiroedd allan dros Fôr Iwerddon. Yn ddyddiol rhwng y Pasg a mis Hydref yn dibynnu ar y tywydd.

## 29 CANOLFAN YMWELWYR PARC GWLEDIG Y GOGARTH

Cyf Map:A1 01492 874151
conwy.gov.uk

Mae arddangosfeydd rhyngweithiol a chlyweledol yn disgrifio hanes, daeareg a bywydd gwyllt y Gogarth, a chewch edrych yn agosach ar adar y môr ar y clogwyni gan ddefnyddio 'camera adar y môr'. Ar agor bob dydd rhwng 10am a 5.30pm canol/diwedd Mawrth i ddiwedd Hydref (5pm ym mis Mawrth a Hydref neu mewn tywydd gwael).

## 28 CAMERA OBSCURA

Cyf Map:B6 Camera Hill,
Y Fach 07788 450445
camobscura.co.uk

Mae'r atyniad unigryw hwn, a agorwyd i ddechrau yn 1860, yn rhoi cipolwg i ymwelwyr ar olygfeydd panoramig gorau Llandudno. Ar agor rhwng Ebrill a Medi, dydd Gwener - dydd Sul o ganol bore, yn ddyddiol yn y prif dymor (yn ddibynnol ar y tywydd a staff).



Canolfan ymwelwyr parc gwledig y gogarth



Car Cebl Llandudno

## 20 PIER LLANDUDNO

Cyf Map:B6 07768 555257
llandudnopier.com

Agorodd Pier Llandudno ym 1878, ac mae wedi bod yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr byth ers hynny. Yn ymestyn 2,295 troedfedd allan dros y môr, dyma'r pier hiraf yng Nghymru, ac un o'r gorau yn y DU. Gyda'i siopau, peiriannau chwarae, caffis a bariau mae'n dal i fod yn un o brif atyniadau Llandudno. Ar agor bob dydd rhwng 10am a 10pm yn ystod yr haf a dydd Iau i ddydd Sul 10am-6pm yn y gaeaf, yn dibynnu ar y tywydd. (Ar gau ar ddydd Nadolig).

## 21 CANOLFAN HWYL BONKERZ

Cyf Map:C4
Llewelyn Avenue, Llandudno
01492 871666
bonkerzfuncentre.co.uk

Mae'r ardal chwarae meddal ar thema castell canoloesol yn llawn pyllau peli, sleidiau a digon o gyfleoedd dringo. Ar agor bob dydd rhwng 10am a 6pm.



Canolfan hwyl Bonkerz



Canolfan Sgïo ac Eirafyrddio Llandudno

# EICH *Antur* FAWR NESAF



## YR AWYR AGORED

Ewch allan i fwynhau'r antur. Prynhawn hamddenol ar y cwrs golff, rhywbeth i'r teulu cyfan ei fwynhau, neu chwaraeon eithafol i gyflymu'r galon. Mae cymaint o ffyrdd o fod yn anturus, dan do ac yn yr awyr agored, ar y dŵr neu ar dir sych. Ac mae Llandudno yn ganolfan wych ar gyfer archwilio mynyddoedd ac arfordir Eryri, hefyd.

**FELLY PAM AROS?**

### 20 PIER LLANDUDNO

**Cyf Map:A7**
**07768 555257**

Mae tocynnau dydd ar gael ar gyfer pysgota drwy'r flwyddyn o bier Llandudno.

### PYSGOTA AR Y LAN

Gallwch bysgota o'r lan ym Mae Colwyn, Llandrillo yn Rhos, Llandudno, Deganwy, Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan.

### PYSGOTA MÔR

Ewch am daith ar gwch siarter gyda chapten profiadol (yn dibynnu ar y tywydd, wrth gwrs!). Yn dibynnu ar y tymor, gallwch bysgota'r glannau am wyniaid y môr, penfras, draenogiad y môr, macrell a mwy. Neu mentrwch ymhellach allan am forlas, penfras, congren a celog. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn lleol.

### 22 CLWB HWYLIO LLANDUDNO

**Cyf Map:E9**
**01492 549900**
**llandudno-sailing-club.org.uk**

O'r tŷ clwb ar y promenâd, mae'r clwb hwylio dingi teuluol hwn yn cynnal rhaglen gymdeithasol a rasio llawn, yn ogystal â sesiynau hyfforddi i ddechreuwyr.

### LLITHRFEYDD LANSIO ARFORDIROL

**Swyddfa'r Harbwr, Conwy**
**01492 596253**

Gallwch lansio eich cwch o sawl lleoliad ar hyd yr arfordir, gan gynnwys Llithrfa Porth Eirias, Bae Colwyn (cychod pŵer yn unig gan gynnwys PWC), Llithrfa Aberhod, Llandrillo-yn-Rhos (cychod heb bŵer yn unig), Llandudno (cychod heb bŵer a badau cyffredinol, dim jetsgis) a Llithrfa Beacons Morfa Conwy (pob math). Mae ffioedd yn daladwy a bydd angen yr yswiriant priodol arnoch. I gael rhagor o fanylion ewch i: **conwy.gov.uk**

### SYRFFIO BARCUD A BYGIO

Ar Arfordir Gogledd Cymru rydym yn ffodus bod gennym lawer o draethau tywodlyd mawr. Perffaith ar gyfer syrffio barcud a bygio. Mae gan y traeth ym Mhenmorfa fan lansio pwrpasol yn ogystal ag ardaloedd hedfan a glanio.



Clwb hwylio Llandudno



## 11 PŴER PEDAL

Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yw ei enw swyddogol, ond rydym ni'n ei adnabod fel y daith feicio arfordirol rhwng Llanfairfechan a Bae Cinmel. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr heb draffig, a gallwch ymuno ar wahanol bwyntiau ar hyd y ffordd. Dyma un o'r ffyrdd gwyrddaf o weld ein harfordir a'n cefn gwlad. Mynnwch gopi o Fap Llwybrau Beicio Conwy o Ganolfannau Croeso Llandudno neu Gonwy neu lawrlwythwch o
**conwy.gov.uk**

## 09 CLWB GOLFF LLANDUDNO (MAESDU)

**Cyf Map:I5**
**Llandudno 01492 876450**
**maesdugolfclub.co.uk**

Mae'r cwrs parcdir pencampwriaeth 18 twll yn manteisio o leoliad arfordirol hardd gyda golygfeydd panoramig o Fae Conwy, y Gogarth ac Eryri ac Ynys Môn. Mae gwersi ar gael, ac mae'r clwb yn cynnig croeso cynnes i ymwelwyr ac aelodau.



## 15 CLWB GOLFF GOGLEDD CYMRU

**Cyf Map:H4**
**Penmorfa, Llandudno**
**01492 875325**
**northwalesgolfclub.co.uk**

Profwch eich sgiliau a mwynhewch olygfeydd gwych o Aber yr Afon Conwy, Ynys Môn ac Eryri o'r cwrs pencampwriaeth 18 twll hwn. Mae 'na faes ymarfer, ac mae hyfforddiant proffesiynol ar gael.

## CLWB GOLFF A GOLFF TROED SILVER BIRCH

**Betws yn Rhos**
**01492 680690**
**silverbirchgolfclub.co.uk**

Gellir cyfuno'r ddau gwrs 9 twll, sydd wedi'u lleoli mewn cefn gwlad prydferth rhwng Abergele a Bae Colwyn, i ffurfio rownd 18 twll. Hefyd mae'r cwrs golff troed 18 twll cyntaf yng Nghymru. Mae ar agor drwy'r flwyddyn ac wedi'i gynllunio ar gyfer dechreuwyr. Gallwch dalu a chwarae, a llogi clybiau a throlïau, felly mae'n berffaith ar gyfer ymwelwyr sy'n chwarae golff.

## 24 CLWB BOWLIO LLANDUDNO

**Cyf Map:E3 Yr Oval, Oddi ar Gloddaeth Avenue, Llandudno 01492 870517**

Mae'r clwb bowlio lawnt yn cynnal gemau sirol a chenedlaethol, ac mae ar agor o fis Ebrill i fis Hydref. Mae yna hefyd lawntiau bowlio yng Nghraig-y-Don, Conwy a Deganwy.



## 35 CANOLFAN SGÏO AC EIRAFYRDDIO LLANDUDNO

**Cyf Map:A4**
**Y Gogarth, Llandudno**
**01492 874707**
**jnlllandudno.co.uk**

Mae'r ganolfan yn rhoi cyfle i sgiwyr, eirafyrddwyr a rolwyr ar bob lefel i ymarfer, dysgu sgiliau newydd neu ddechrau o'r dechrau. Rhowch gynnig ar eira-diwbio (cylchoedd mawr gwynt) i lawr y bryn, naill ai ar eich pen eich hun neu wedi'ch cysylltu ag eraill. A peidiwch â cholli'r Cresta. Yn 750 medr o hyd, dyma'r daith tobogan hiraf yng Nghymru! Delfrydol ar gyfer pen-blwyddi a diwrnodau allan i'r teulu. Mae hyfforddiant arbenigol ar gael gan hyfforddwyr, ac mae'r ganolfan ar agor bob dydd 10am tan 10pm. Mae'n syniad da i ffonio ymlaen llaw gan fod rhai gweithgareddau yn dibynnu ar y tywydd.

## CERDDED: GWASANAETH CEFN GWLAD CONWY

**01492 575200**
**conwy.gov.uk**

Cerdded yw'r ffordd orau i ddarganfod ein trefi, coedwigoedd, traethau a choetir. Ac mae taith gerdded trwy ein tirwedd yn gyfle ddim i'w golli i weld ein bywyd gwyllt. Mae teithiau cerdded a theithiau tywys, yn ogystal â chasgliad o gyhoeddiadau ar gael o'r Canolfannau Croeso. Felly gwisgwch eich esgidiau cerdded ac ewch amdani.

# EGNIOL DAN DO

## 12 CANOLFAN NOFIO LLANDUDNO


**Cyf Map:E8**
**Mostyn Broadway**
**01492 575900 conwy.gov.uk**

Ffefryn cadarn ar gyfer pob oedran a gallu. Edrychwch ar y wefan am sesiwn sy'n addas i chi, o nofio lonydd i sesiynau hwyl i'r teulu. Neu beth am ymarfer eich cyhyrau yn y gampfa gyda'r offer diweddaraf. Ar agor bob dydd - amseroedd yn amrywio.

## CANOLFAN HAMDDEN CYFFORDD LLANDUDNO

**Ychydig oddi ar yr A55**
**Cyffordd Llandudno**
**01492 577925 conwy.gov.uk**

Dewch i ymarfer yn y ganolfan hamdden boblogaidd hon gyda neuadd chwaraeon amlddefnydd, wal ddringo ac ystafell ffitrwydd. Mae'r ganolfan yn cynnal dosbarthiadau ymarfer corff rheolaidd ac yn cynnig gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc. Ar agor dydd Llun i ddydd Iau 7am tan 10pm, Dydd Gwener 7am tan 9pm, dydd Sadwrn 10am tan 4pm, a dydd Sul 10am tan 6pm.



## LLWYBR ARFORDIR CYMRU

**walescoastpath.gov.uk**

Gwisgwch eich esgidiau a dewch i gerdded. Mae'r Llwybr Arfordir Cymru enwog yn ymestyn am 870 milltir o amgylch arfordir cyfan Cymru. Ein rhan ni - y 34½ milltir rhwng Bae Cinmel a Llanfairfechan sy'n cynnwys llawer o uchafbwyntiau.

## COFIWCH!

Gall amseroedd agor a chyfleusterau newid heb rybudd felly cysylltwch â'r atyniadau unigol cyn cychwyn.

# TURIO I'R GORFFENNOL



Mwyngloddiau Oes Efydd Y Gogarth

# HANES BYW

Yn gryno. Pier a phromenâd Fictoraidd – a, goeliech chi bod mwyngloddiau cynhanesyddol ar y pentir uwchben? I gael trosolwg o daith hanesyddol hir Llandudno galwch i mewn i Amgueddfa Llandudno, a'r Home Front Experience, sy'n dwyn i gof y bywyd sifil yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



### 36 TRAMFFORDD Y GOGARTH **Cyf Map:C4**

**Church Walks, Llandudno**
**01492 577877**
**greatormetramway.co.uk**

Dewch i brofi sut mae pobl wedi bod yn teithio ers dros 100 mlynedd yn yr atyniad unigryw a hanesyddol hwn yn Llandudno. Tramffordd y Gogarth, sydd wedi bod yn swyno ymwelwyr ers 1902, yw'r unig dramffordd cebl ym Mhrydain sy'n teithio ar ffyrdd cyhoeddus. Wrth deithio drwy Barc Gwledig y Gogarth a'r Warchodfa Natur, gallwch eistedd ac ymlacio tra'n mwynhau'r golygfeydd godidog gogledd Cymru a thu hwnt. Mae'r tramiau yn rhedeg bob 20 munud, 7 diwrnod yr wythnos. Ar agor ddiwedd mis Mawrth tan ddiwedd mis Hydref 10am-6pm (yn cau 5pm Mawrth a Hydref yn unig).

### 30 MWYNGLODDIAU OES EFYDD Y GOGARTH

**Cyf Map:A1 Y Gogarth, Llandudno 01492 870447**
**greatormemines.info**

Dewch i ddarganfod y llwybrau sy'n 4000 oed ac ogof danddaearol anhygoel yn y mwynglawdd hwn o'r oes efydd, y mwynglawdd hynafol hynaf yn y byd y gwyddwn amdano. Canolfan Ymwelwyr gydag arteffactau ac arddangosfeydd yn dangos y mwyngloddio, mwyndoddi a bywyd yn yr Oes Efydd. Ar agor bob dydd o ganol mis Mawrth hyd at ddiwedd mis Hydref o 9.30am.

### 26 HOME FRONT EXPERIENCE **Cyf Map:D5**

**New Street, Llandudno**
**01492 871032**
**homefrontmuseum.co.uk**

Ewch yn ôl mewn amser i'r Ail Ryfel Byd yn yr amgueddfa hanes byw hon. Dewch i ddarganfod yr hyn sydd i'w weld a chlywed ar y ffrynt cartref trwy arddangosfeydd siop ac ystafelloedd wedi'u hail-greu. 2018: Ar agor bob dydd o ganol mis Mawrth hyd at 3 Tachwedd rhwng 10am a 4pm (10am tan 2pm ar ddydd Sul).



Tramffordd y Gogarth

### 33 MARINE DRIVE 12

**Cyf Map:A5**
**Y Gogarth, Llandudno**
**01492 576622**

Gyrrwch ar hyd un o dollffyrdd hiraf y DU. Mae Marine Drive yn mynd o amgylch y Gogarth ac mae golygfeydd syfrdanol o Ynys Môn, Eryri ac allan dros Fôr Iwerddon. Mae'n fan gwych ar gyfer gwylio'r haul yn machlud!

### 10 AMGUEDDFA LLANDUDNO **Cyf Map:D4**

**Gloddaeth Street, Llandudno**
**01492 876517**
**llandudnomuseum.co.uk**

Darganfyddwch stori ddiddorol Llandudno o gynhanes i'r presennol drwy arddangosfeydd parhaol ac arddangosfeydd dros dro, gan gynnwys archaeoleg, hanes naturiol, daeareg, ac arteffactau o'r gorffennol diweddar, yn ogystal ag arddangosfeydd celfyddyd gain. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn. (Ar gau yn ystod mis Ionawr) Gall yr oriau agor newid, ffoniwch neu gwiriwch y wefan am y wybodaeth ddiweddaraf.



Home Front Experience



# Celfyddydau AC ADLONIANT

Yn gryno. Edrych yn dda, swnio'n dda. Rydym yn awyddus i gyffroi pethau drwy gyflwyno cymysgedd o gelf gyfoes ac adloniant i'r teulu, darluniau da iawn a chomedi, cynyrchiadau enw mawr a rhaglen lawn o wyliau a digwyddiadau.

### 25 VENUE CYMRU

**Cyf Map:E9**
**Y Promenâd, Llandudno**
**01492 872000**
**venuecymru.co.uk**

Mae prif leoliad adloniant a chelfyddydau Gogledd Cymru yn cynnwys theatr 1500 sedd, canolfan gynadledda ac arena. Mae'r theatr yn dangos popeth o opera a bale, dawns a drama, comedi, bandiau byw a phanto tymhorol. Mae arddangosfeydd celf rheolaidd a digwyddiadau, hefyd.

### CINEWORLD

**Cyffordd Llandudno**
**0871 200 2000**
**cineworld.co.uk**

Cewch weld y ffilmiau diweddaraf, yn ogystal â ffilmiau clasurol a dangosiadau arbennig wythnosol yn y sinema 9 sgrin hon. System dolen clyw. Parcio am ddim.



### 16 MOSTYN

**Cyf Map:E7**
**Vaughan Street, Llandudno**
**01492 879201 / mostyn.org**

O'r grisiau pensaernïol trawiadol i'r galeri hardd, golau ac agored sy'n arddangos y gorau mewn celf gyfoes ryngwladol, mae MOSTYN yn lle trawiadol i'w archwilio. Mae siop gwych sy'n gwerthu crefftau unigryw gan wneuthurwyr talentog o Gymru a thu hwnt, a chaffi golau a modern i fyny'r grisiau. Ar agor dydd Mawrth – dydd Sul 10.30am i 4pm. Mynediad am ddim.



venuecymru.co.uk


## Beth Sydd Ymlaen... What's On...

Cipolwg 2018/19 // At a glance 2018/19




21.08.18 – 02.09.18

**SHREK**




10.10.18 – 13.10.18

**AWFUL AUNTIE**




23.10.18 – 27.10.18

**CALENDAR GIRLS**




08.12.18 – 30.12.18

**CINDERELLA**




11.02.19 – 16.02.19

**KINKY BOOTS**




09.05.19

**STRICTLY COME DANCING THE PROFESSIONALS**

**Swyddfa Docynnau / Box Office: 01492 872000**

Y Promenad / Promenade, Llandudno, LL30 1BB



# Canolfan Groeso Llandudno




**Angen help i archebu llety, cyngor i gynllunio eich diwrnod, rhywbeth blasus i'w fwyta neu rodd wedi'i gwneud yn lleol ar gyfer y person arbennig hwnnw?**


**Bydd ein staff cyfeillgar a gwybodus yn hapus i gynorthwyo drwy ddarparu:**

- Gwasanaeth archebu llety
- Gwybodaeth am atyniadau
- Cynllunio taith
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau
- Gwybodaeth am gludiant cyhoeddus
- Archebion National Express
- Archebion theatr lleol
- Archebion bws lleol
- Llyfrau, mapiau a chyhoeddiadau
- Amrediad eang o gynnyrch lleol
- Amrediad newydd o roddion lleol

**Canolfan Groeso Llandudno**
Uned 26, Canolfan Fictoria, Mostyn Street, Llandudno LL30 2NG
**01492 577577 llandudnotic@conwy.gov.uk**



## Atyniad Treftadaeth Unigryw Llandudno
## Llandudno's Unique Heritage Attraction




**Ar agor diwedd Mawrth tan ddiwedd Hydref**
**7 diwrnod yr wythnos, 10am - 6pm**

**Open late March to late October**
**7 days a week, 10am - 6pm**

Gorsaf Victoria Station, Church Walks, Llandudno, LL30 2NB
T: 01492 577877 E: tramwayenquiries@conwy.gov.uk
www.greatormetramway.co.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL




www.conwyvalleyrailway.co.uk

Rheilffordd Dyffryn Conwy
Conwy Valley Railway
@LeinDconwyVLine

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



ALPINE



Mae Taith Marine Drive yn mynd â chi ar daith dywys wych o'r Gogarth ar hyd Marine Drive ar ein hen fws moethus. Mae'r daith yn para awr ac mae'n gadael o Bier Llandudno am 11am, 1pm a 3pm, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae Llandudno a Chonwy City Sightseeing yn ffordd wych o weld y gorau o Landudno a Chonwy. Hyd at 14 taith y dydd o fis Mawrth tan ddiwedd mis Hydref gyda thocynnau Camu ymlaen a Chamu i ffwrdd yn ddilys am 24 awr.



**Alpine Travel, Prif Swyddfa, Builder Street West, Llandudno, Gogledd Cymru, LL30 1HH**
**Ffôn: 01492 879133 Rhadffôn: 0800 0432452 E-bost: info@alpine-travel.co.uk**
**Gwefan: www.alpine-travel.co.uk**

THE WORLD WAR II
HOME FRONT
EXPERIENCE

PROFIAD Y FFRYNT CARTREF YN YR AIL RYFEL BYD PROFWCH OLYGFEYDD A SYNAU BYWYD SIFIL YN YSTOD YR AIL RYFEL BYD YN YR ATYNIAD UNIGRYW DAN DO HWN

NEW STREET • LLANDUDNO • LL30 2YF

ff 01492 871032 e info@homefrontmuseum.co.uk
@homefrontmuseum

ewch i www.homefrontmuseum.co.uk

# Canolfan Pen y Gwylfryn

## Y Gogarth – Llandudno

- Siop Anrhegion a Hynodion
- Bwyty a Chaffi • Bar Randolph Turpin
- Hen Bictiwrs Fictoraidd • Golff Antur Rocky Pines




## Mwyngloddiau Oes Efydd byd-enwog y Gogarth yn Llandudno

*Rhyfeddod go iawn o'r Byd Hynafol*

Canolfan Ymwelwyr, Ffilm gyflwyniadol, Twneli 4,000 mlwydd oed
Mwynglawdd Brig, Lloches Mwyndodd



Siop, llyfrau ail-law a lluniaeth
Dilynwch yr arwyddion "Mwynglawdd Hynafol" o Landudno
**www.greatormemines.info**




Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno

**HAPPY FACES**

Elusen blant

*yn cyflwyno...*

**YN FYW YN NEUADD Y DREF**

**BOB DYDD MERCHER**
**2018: 23 MAI - 26 MEDI**
**2019: 22 MAI - 25 MEDI**

**WYT TI'N COFIO**

**BOB DYDD IAU**
**2018: 17 Mai - 4 HYDREF**
**2019: 16 Mai - 3 HYDREF**

**Tocynnau £7.50 i Oedolion £6 i Blant**

Bydd yr elw'n mynd i helpu plant sâl ac anabl yng Ngogledd Cymru.

**Ffôn: Ray - 07968 957177**

## Cylchdro'r Gogarth, Llandudno





## CANOLFANNAU CROESO

Os ydych angen rhagor o wybodaeth wrth gynllunio eich gwyliau neu ar ôl i chi gyrraedd yma, cysylltwch neu ewch i'n Canolfannau Croeso.

## AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN



### LLANDUDNO


Uned 26, Canolfan Fictoria,
Mostyn Street, LL30 2NG
ff: (01492) 577577
e: llandudnotic@conwy.gov.uk

### CONWY

Adeilad Muriau, Stryd Rosehill, LL32 8LD
ff: (01492) 577566 e: conwytic@conwy.gov.uk

## TEITHIO O AMGYLCH

Pam na wnewch chi adael y car yn lle mae o, ymlaciwch a mwynhewch y golygfeydd drwy ddefnyddio ein rhwydwaith o fysiau a threnau. Ceir manylion llawn yn yr Arweinlyfr Cludiant Cyhoeddus sydd ar gael yn y Canolfannau Croeso. Ffoniwch **Traveline Cymru** ar **0800 464 00 00** Neu ewch i **traveline.cymru**: y wefan cynllunio teithiau ac amserlenni ar gyfer cludiant cyhoeddus yng Nghymru.




Os ydych yn chwilio am wybodaeth am Landrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn neu Gonwy a Dyffryn Conwy, codwch gopi o'r Canllawiau Poced Hanfodol hyn yn y Canolfannau Croeso neu e-bostiwchil: **tourism@conwy.gov.uk**


CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Cyhoeddwyd gan:**
Tîm Marchnata Twristiaeth
Gwasanaeth Datblygu Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Adeilad y Llyfrgell, Mostyn Street
Llandudno, LL30 2RP
ffôn: 01492 575945 / 575950


© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyhoeddiad hwn, ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, camgymeriadau neu hepgoriadau nac am unrhyw fater sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â neu'n codi o gyhoeddi'r wybodaeth yn y llyfryn hwn.


**Dyluniwyd gan:** View Creative
37 Rhos Road, Llandrillo-yn-Rhos, Conwy, LL28 4RS.
t: 01492 542400 www.viewcreative.co.uk

**Diolchiadau am y lluniau:**
Alamy Images, Martin Lyons Photography, PM Photography, © Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru, Matt Wilcox.

## ATYNIADAU A LLEFYDD O DDIDDORDEB

1. Llwybr Alice – yn dechrau tu allan i Lyfrgell Llandudno.......................D6
2. Parc Fferm Bodafon ...............F12/13
3. Man Chwarae i Blant ....................F2
4. Canolfan Cyngor ar Bopeth ..........F4
5. Gorsaf Fysiau ...............................E8
6. Parc Craig-y-Don ........................G11
7. Cae Chwarae Craig-y-Don (Bowls a Thennis).......................G10
- *i* Canolfan Groeso..........................D6
9. Clwb Golff Llandudno (Maesdu)...... I5
10. Amgueddfa Llandudno..................D4
11. Gorsaf Bad Achub Llandudno ..... E12
12. Canolfan Nofio Llandudno ............E8
13. Llyn Cychod Model....................... E1
14. Ardal Gemau Amlddefnydd...........F5
15. Clwb Golff Gogledd Cymru, Penmorfa.........................................H4
16. Mostyn (Oriel Gelf) .......................E7
17. Mostyn Champneys (Parc Manwerthu).........................F9
18. Pwll Padlo a Man Chwarae.......... E12
19. Parc Llandudno (Parc Manwerthu) E8
20. Pier................................................A7
21. Canolfan Chwarae - Bonkerz........C4
22. Clwb Hwylio...................................E9
23. Archfarchnad.................................F7
24. Cae Hamdden The Oval (Criced a Chlwb Bowlio Llandudno) ..........F3
25. Venue Cymru (Canolfan Gynadledda, Theatr ac Arena) ..............................E9
26. Yr Ail Ryfel Byd - Profiad y Ffrynt Cartref..............D5

## Y GOGARTH

27. Car Cebl ........................................B6
28. Camera Obscura............................B6
29. Parc Gwledig y Gogarth................ A1
30. Mwynglawdd Hynafol y Gogarth .... A1
31. Gerddi'r Fach.................................B5
32. Gerddi Haulfre ...............................C3
33. Marine Drive ..................................A5
34. Cwrs Golff Bach ............................C2
35. Canolfan Sgïo ac Eirafyrddio a Llwybr Toboganau.......................A4
36. Gorsaf Dramiau ............................C4

## EGLWYSI A MANNAU ADDOLI

**(Nifer mewn cromfachau'n cyfeirio at eglwysi)**

- Bedyddwyr ...................................... (5) G3
- Bedyddwyr/Efengylaidd Annibynnol... (7) G4
- Eglwys Gristadelffaidd ........................(2) E7
- Eglwys yng Nghymru.... (1) A1,(3) E6,(6) E10
- Uniongred Goptaidd ........................ (12) F5
- Efengylaidd Annibynnol ................... (8) F10
- Methodistaidd ....................(10) E11, (11) D6
- Pentecostaidd ................................(13) D5
- Presbyteraidd
- Eglwys Ddiwygiedig Unedig .............(14) D5
- Catholig..............................................(9) E5
- Eglwys Unedig Cymru .....................(15) D4
- Synagog .......................................... (4) C4

- 20 Atyniad / Lle o Ddiddordeb
- *i* Canolfan Groeso
- ★ Swyddfa Bost
- → Stryd Unfforddd
- P Maes Parcio Talu ac Arddangos
- P Parcio Glan y Môr Talu ac Arddangos 10am-4pm Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol Parcio AM DDIM rhwng 4pm-10am
- Toiledau
- Toiledau gyda gweithiwr (tâl)
- Toiled hygyrch gyda chlo Cynllun Allwedd Cenedlaethol RADAR)
- Toiledau gyda gweithiwr (tâl)
- Meddygfa
- Gorsaf Betrol

